



Cynor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales



ASiantaeth yr Amgylchedd Cymru
ENVIRONMENT AGENCY WALES



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru

Canllaw Technegol Ategol

I gael copïau ychwanegol o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Gangen Biotechnoleg ac Iechyd Planhigion
Yr Is-adran Gwasanaethau Technegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3596

E-bost: planthealthandbiotech@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk/cefngwlad (ewch i 'ffermio' neu chwiliwch am Llosgi Grug a Glaswellt ar y wefan).

Cynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru

Canllaw Technegol Ategol

Pwrpas y nodiadau cyfarwyddyd hyn yw helpu'r tîrffeddiannwr/rheolwr i greu Cynllun Rheoli Llosgi fel sy'n ofynnol yn Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008 a Chod Llosgi Grug a Glaswellt Cymru 2008.

Cam 1 Creu map ar gyfer y cynllun llosgi

I ddechrau dylech gael map o'r tir lle rydych yn bwriadu llosgi. Dylid defnyddio copi o'ch map IACS os ydych yn ddaliad cofrestredig, fel arall bydd map Arolwg Ordans safonol ar raddfa 1:25000 yn addas.

Cam 2 Tynnu ardaloedd dim llosgi

Canfyddwch a marciwch yn glir ar y map yr ardaloedd sensitif hynny na ddylid eu llosgi, h.y. ardaloedd dim llosgi. Cyfrifwch arwynebedd y parthau dim llosgi a thynnu hynny o'ch cyfanswm yng Ngham 1. Bydd hynny'n rhoi cyfanswm yr arwynebedd o llystyfiant y gellir ei llosgi.

Tynnwch ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu'n gyffredinol yn ardaloedd dim llosgi. Dyma'r ardaloedd hynny:

- Mawnog a rhostir/gweundir gwlyb; tir gwlyb; torlannau mawn ac ardaloedd eraill lle ceir mawn noeth; ardaloedd llawn migwyn, llysiâu'r afu ac/neu gennau (gweler Atodiad 1 am ddiffiniadau o figwyn, gweundir grug, gweundir gwlyb, gorgorsydd a chyforgorsydd)
- Tir gwlyb (gweler y diffiniad ar gyfer rhuthradau dŵr a mignenni dyffrynol)
- Coetir a phrysgwydd
- Gweundir morol/arfordirol; glaswelltir morol/arfordirol (gweler y diffiniad ar gyfer gweundir gorllewinol, gweundir grug a glaswelltir a gweundir morol)
- Llecynnau mawr o hen rug bras
- Llystyfiant ar weundir sy'n cael ei lethu gan dda byw; llystyfiant wedi'i wynt-docio

- Priddoedd sy'n erydu ac sy'n fas iawn (llai na 5cm o drwch); rhigolau erydu
- Ardaloedd lle gwyddys bod rhywogaethau sy'n 'sensitif i dân' i'w cael
- Safleoedd uchel [uwch 600m] (gweler y diffiniad ar gyfer gweundir a glaswelltir mynyddig)
- Llethrau serth (o 1 i 2 neu fwy)
- Sgri a llethrau eraill creigiog
- Llain 10m sy'n gyflin â chysiau dŵr
- Safleoedd a nodweddion archeolegol/hanesyddol
- Ardaloedd a ddynodwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ardaloedd dim llosgi

Mae'r rhestr uchod yn cynnwys rhai **ardaloedd sensitif**, a gellir llosgi rhai ohonynt mewn rhai amgylchiadau. **Rhaid** i chi ofyn am gyngor technegol gan yr Adran Materion Gwledig (Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru (GCCG) cyn gwneud hynny - fe allai'r llosgi arwain at ddifrod mawr yn y tymor hir.

Am ddisgrifiad llawnach o'r uchod, cyfeiriwch at Atodiad 1 y Cod Llosgi.

Cofiwch nad yw llosgi ynddo'i hun yn ddull effeithiol o reoli:

- 1 Eithin Cyffredin** - does dim llawer o fudd mewn llosgi i reoli dros y tymor hir. Effaith hynny yw torri ar huned hadau gan achosi i eginblanhigion ifanc ymddangos fel carped i ailoresgyn y llecyn a losgwyd.
- 2 Rhedyn** - nid yw llosgi o unrhyw fudd. Mae'n annhebygol y bydd llosgi planhigion marw yn effeithio ar y blagur o dan yr wyneb.
- 3 Glaswellt y bwla (*Molinia*)** - does dim llawer o fudd mewn llosgi glaswellt y bwla dros y tymor hir, oni bai fod hynny'n rhan o raglen adfer.

Fe'ch cynghorir felly i beidio â chynnwys ardaloedd sy'n cynnwys y rhywogaethau hyn yn bennaf o fewn rhaglen losgi.

Cam 3 Amllder y llosgi - hyd y cylchdro

Nodwch hyd eich cylchdro llosgi mewn blynyddoedd. Mae'r cylchdro llosgi'n dynodi faint o flynyddoedd y bydd hi'n cymryd i losgi'r holl llystyfiant yn y cynllun. Bydd amllder y llosgi'n dibynnu ar natur y llystyfiant a losgir, yr amodau amgylcheddol a'r hinsawdd leol.

Aseswch y mathau amrywiol o llystyfiant yn seiliedig ar y categorïau isod:

Clystyrau sy'n cynnwys grug yn bennaf

Bydd grug yn marw os caiff ei losgi'n rhy aml, a gall ddirywio os na chaiff ei losgi'n ddigon aml. **Ni ddylid llosgi i leihau arwynebedd y grug er mwyn gwella ansawdd y tir ar gyfer pori.**

Os bydd mwy o rug nag unrhyw blanhigyn arall, pennir hyd y cylchdro'n seiliedig ar yr amser a gymerir i'r grug gyrraedd y cyflwr priodol i'w losgi fel clwstwr. Gellir defnyddio uchder y grug i bennu cyflwr y clwstwr.

Fel arfer gellir llosgi grug wedi iddo gyrraedd uchder o **ddim llai na 30cm**. Bydd yr amser a gymerir i'r grug dyfu i'r uchder yma yn amrywio o'r naill ardal i'r llall yn dibynnu ar yr hinsawdd a nodweddion y pridd lleol. Er mwyn cynnal y grug, dylid mabwysiadu cylchdro llosgi sy'n adlewyrchu'r amser tyfu; h.y. os bydd y grug yn cyrraedd 30cm mewn 12 mlynedd, dylid llosgi 1/12 o gyfanswm yr ardal a reolir bob blwyddyn; os bydd yn cyrraedd 30cm mewn 20 mlynedd, dylid llosgi 1/20 bob blwyddyn etc.

Dyma rai materion eraill y mae angen eu hystyried:

- Ar bob safle, dylid gadael o leiaf 10% o'r grug heb ei reoli drwy losgi, er mwyn iddo aeddfedu a dirywio'n naturiol.
- Mae'n bosibl y bydd angen sicrhau lefelau isel o bori yn fuan yn y cylchdro er mwyn osgoi gorburi ar y rhannau wedi'u llosgi, ond gellir cynyddu lefelau'r stoc wrth i'r arwynebedd sydd wedi'i gynnwys yn y cylchdro gynyddu.
- Os llosgir planhigion mawr prenaidd mae perygl y bydd y tanau'n rhy boeth gan arwain at golli rheolaeth ac, o bosib, adfywiad gwael wedi'r llosgi.

Cymysgedd o rug ac eithin gorllewinol

Mae tân yn ysgogi hadau eithin gorllewinol, felly mae llosgi rheolaidd yn annog yr eithin i ledu ar draul y grug. Gall eithin gorllewinol ormesu ar weundir sy'n cael ei losgi'n aml. Argymhellir cylchdro o ddim llai nag 11 mlynedd i atal eithin gorllewinol rhag gormesu.

Dyma rai materion eraill y mae angen eu hystyried:

- Os llosgir hen eithin prenaidd, mae perygl y bydd y tanau'n rhy boeth, gan arwain at golli rheolaeth.
- Rhaid pori ar weundir eithin gorllewinol wedi'r llosgi er mwyn rheoli eginblanhigion yr eithin.

Glaswelltir

Nid yw llosgi glaswelltir bob blwyddyn o fudd i amaethyddiaeth na chadwraeth.

Fel arfer, bydd y cylchdro llosgi ar laswellt yn rhy fyr. Ar y cyfan, mae rhosydd glaswelltog ac ynddynt amrywiaeth eang o laswellt, gan gynnwys poblogaeth sylweddol o faeswellt a pheiswellt, o ansawdd gwell ar gyfer pori na rhosydd sy'n cynnwys glaswellt y bwla (*Molinia*) neu gawn duon (*Nardus*) yn bennaf. Mae'r rhywogaethau gwaelach hyn yn adfer yn gyflym ar ôl llosgi ac fe allant droi'n ormesol os cânt eu llosgi droeon yn aml. Ni fydd llosgi ond o fudd os ceir llystyfiant marw amlwg ac eang gan nad yw'r stoc pori wedi gwneud defnydd da ohono dros y tymhorau blaenorol. Mae hyn yn debygol iawn gyda system bori sy'n cynnwys defaid yn unig, felly dylid ystyried cyflwyno da byw trwm fel gwartheg neu ferlod mynydd gan eu bod yn gallu gwneud defnydd gwell o'r gwair bras sy'n tyfu wedi'r llosgi. Os yw llystyfiant trwchus heb ei fwyta'n peri problem barhaus, ceisiwch losgi arwynebedd llai. Bydd hyn yn ymestyn y cylchdro ac yn hyrwyddo defnydd gwell o'r twf newydd.

Cynlluniwch cylchdro llosgi'n seiliedig ar gyflwr y glaswellt a'r anghenion o ran pori. Peidiwch â llosgi mwy na'r hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion eich stoc a rheolwch y raddfa bori'n ofalus.

Cymunedau cymysg

Lle mae grug yn bresennol ac yn ddymunol, rheolwch y cyfan fel pe bai'n rug. Yn rhy aml, bydd llosgi'n difetha ystod o rywogaethau ac yn cyflymu cyrhaeddiad gwair bras digroeso i gymryd eu lle.

Mae amllder llosgi lle bo'r llystyfiant yn cynnwys ystod o rug, glaswellt a rhywogaethau eraill yn dibynnu ar ba mor amlwg a dymunol yw pob un oddi mewn i'r amcan rheoli cyffredinol.

Cam 4 Cyfrifo'r ardal i'w llosgi'n flynyddol

Cyfrifir yr ardal i'w llosgi'n flynyddol drwy rannu cyfanswm yr arwynebedd o llystyfiant y gellir ei losgi a gyfrifwyd yng Ngham 2 â hyd y cylchdro a nodwyd yng Ngham 3.

Cam 5 Cynllunio clytiau o dir i'w llosgi a rhwystrau tân

Wrth baratoi'r cynllun does **dim** angen marcio clytiau unigol o dir ar fap gan y bydd union leoliad y llosgi'n debygol o ddibynnu ar ffactorau fel y tywydd a chyflwr y tir ar y diwrnod. ***Dylai'r cynllun ddangos y blociau lle caniateir rheoli drwy losgi/tocio a nodi nifer a maint y clytiau a reolir bob blwyddyn.*** Efallai y byddwch yn dymuno cynnwys gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â siâp a dosbarthiad y clytiau. Gellir creu cynllun manylach o leoliadau llosgi bob blwyddyn a'i gyflwyno i bwy bynnag sy'n gwneud y gwaith.

Maint, siâp a dosbarthiad y clwt

Fel arfer, mae'n well creu nifer o danau bychain a'u gwasgaru drwy'r ardal, yn hytrach na chynnau ambell glwt mawr. Fodd bynnag, os gosodir tanau bychain yn rhy agos at ei gilydd byddant yn cyfuno o fewn dim amser, ac fe allech golli rheolaeth arnynt. Ni ddylid rheoli clytiau sy'n gyfagos â chlytiau'r flwyddyn flaenorol, gan y bydd hyn yn lleihau amrywiaeth y strwythur. Yn ddelfrydol, dylid gadael o leiaf pum mlynedd rhwng rheoli clytiau sydd nesaf at ei gilydd, ond mae'n bosibl na fydd modd gwneud hyn bob amser.

O ran ymddangosiad, ac er mwyn diogelu cynefinoedd bywyd gwyllt, yr hyn sydd orau yw mosäig o glytiau o lystyfiant o oedran amrywiol. O safbwynt amaethyddol, mae'r patrwm yma'n caniatáu pori gwell. Er mwyn sicrhau'r darlun delfrydol yma, mae'n bosibl y bydd angen amrywiaeth yn siâp a maint tanau gwahanol. Ar y rhan fwyaf o safleoedd dylid anelu i greu clytiau rhwng 0.25 a 1.0 hectar o ran maint.

Ar safleoedd â rhywogaethau o ddiddordeb, yn arbennig adar ucheldirol sydd o ddiddordeb arbennig e.e; cochiad, gylfinir, cwtiad aur, dylid creu clytiau hirgul yn hytrach na rhai sgwâr. Dylid llosgi stribedi hirgul hyd at 30m o led gan adael cysgod amddiffynnol gerllaw. Mae hyn yn cynyddu'r rhyngwynebu rhwng dosbarthiadau oedran gan leihau'r amser a gymerir gan rywogaethau ffawna i ailwladychu. Oni bai fod angen hwyluso symudiad da byw i rannau neilltuol o'r safle, ni ddylid torri llwybrau rhwng blociau sy'n cael eu rheoli - gall hynny arwain at orbori grug ifanc a chaniatáu i ysglyfaethwyr symud yn rhwydd.

Rheoli rhwystrau tân

Ar safleoedd nas rheolir yn arbennig, ceir llwyth uchel iawn o danwydd yn y llystyfiant aeddfed o rug ac eithin ac mae angen creu system o rwystrau tân cyn rheoli drwy losgi. Hyd yn oed lle tybir mai tocio sy'n briodol yn hytrach na llosgi, mae'n bosibl y bydd angen rhwystrau tân er mwyn helpu i reoli lledaeniad tanau gwyllt. Os torrir rhwystrau tân yn hytrach na'u llosgi, rhaid clirio llystyfiant marw o'r safle gan ei fod yn dra fflamadwy. Gellir cynnwys y rhwystrau tân yn rhan o'r rhaglen losgi/torri flynyddol a chaniatáu iddynt adfywio, neu gellir eu cynnal a'u cadw'n barhaol drwy dorri/llosgi'n rheolaidd; fodd bynnag, bydd rheoli rhwystrau tân yn rhy aml yn ei drawsnewid yn llain mwy glaswelltog.

Cyn gynted ag y bydd strwythur mwy amrywiol wedi'i greu yn y llystyfiant ac y bydd swmp y deunydd corllwyn llawn pren wedi'i dynnu o'r safle, mae'n bosibl na fydd angen unrhyw rwystrau tân; fodd bynnag, bydd angen cwblhau un cylchdro llawn er mwyn cyflawni hynny.

Cam 6

Sefydlu trefn ar gyfer pori

Sefydlwch drefn ar gyfer pori a fydd yn cadw'r llystyfiant yn y cyflwr a ddymunir wedi iddo gael ei losgi. Bydd natur a lefel y pori sydd ei angen yn dibynnu ar y llystyfiant sy'n cael ei reoli.

Rheoli drwy gyfuno pori a llogi

Mae pori yn rhan annatod o reoli cynefinoedd. Gall llogi heb bori priodol annog rhywogaethau fel glaswellt y bwla (*Molinia*) a chawn duon (*Nardus*) i ormesu; ynghyd â phrysgwydd fel eithin (*Ulex*) ar draul rhywogaethau o gorlwyni. Ar y cyfan, pori yn y gwanwyn a'r haf sydd orau, a dylid lleihau'r pori, neu beidio â phori yn yr hydref â'r gaeaf, yn arbennig ar safleoedd uwchdirol lle bydd defaid yn pori. Ar safleoedd iseldirol, gellir caniatáu i ferlod a gwartheg bori ar ddwysedd isel drwy'r flwyddyn. Bydd ffactorau megis argaeledd rhywogaethau blasus o laswellt, topograffeg, natur y stoc, ymddygiad y stoc ac ati...oll yn pennu natur y pori, a bydd hynny yn ei dro'n effeithio ar y llystyfiant. Os oes elfen o hyblygrwydd i'r rheoli, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno ymchwilio i drefnau eraill megis pori cyfnodol, lle bydd cyfnodau o beidio pori'n dilyn cyfnodau byr â llawer o stoc. ***Gwyliwch rhag gorbori gan y bydd hynny'n groes i ofynion Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD).***

Os llogir gweundir gwlyb/llaith ac arno *Molinia* bydd angen rhoi da byw (rhai trwm fyddai orau) i bori ar y tir yn y gwanwyn er mwyn atal y *Molinia* rhag gormesu. Yn yr un modd, bydd eithin gorllewinol yn adfywio'n gyflym ar ôl llogi, felly bydd angen digon o bori yn y gwanwyn er mwyn rheoli'i dwf.